**<u>Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru</u>**
**Cyfarfod rhithwir**
**Dydd Iau 23 Medi 2021**

## Cofnodion

### Yn bresennol

| | |
|---|---|
| Jane Hutt AS | Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol (Cadeirydd) |
| David T C Davies AS | Is-ysgrifennydd Gwladol Cymru |
| Amy Rees | Cyfarwyddwr Cyffredinol y Gwasanaeth Prawf yng Nghymru |
| Chris Jennings | Cyfarwyddwr Gweithredol Cymru, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi |
| Chris Batchelor | Dirprwy Bennaeth, Uned yr Undeb, Datganoli a Gwell Rheoleiddio, y Swyddfa Gartref |
| Nicola Davies | Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol |
| Dr Andrew Goodall | Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd/Prif Weithredwr y GIG, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru |
| Gary Haggaty, | Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Diogelwch Cymunedol, Llywodraeth Cymru |
| Catrin Dowling | Pennaeth Troseddau a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru |
| Siân Brown | Uwch Reolwr y Tîm Troseddau a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru |
| Jayne Phillips | Tîm Troseddau a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru |
| Leanne Lewis | Tîm Troseddau a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru |
| Hannah Packham-Smith | Tîm Troseddau a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru |
| Dafydd Llywelyn | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed Powys |
| Eleri Thomas | Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent |
| Andy Dunbobbin | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| Wayne Jones | Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| Sian Curley | Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent |
| Alun Michael | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru |
| Cerith Thomas | Swyddog Cyswllt Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu |
| Carys Morgans | Pennaeth Staff Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed Powys |
| Claire Parmenter | Prif Gwnstabl Dros Dro Heddlu Dyfed Powys |
| Amanda Blakeman | Dirprwy Brif Gwnstabl Heddlu Gwent |
| Carl Foulkes | Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru |
| Jeremy Vaughan | Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru |
| Joanne Hopkins | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Jon Drake | Cyfarwyddwr Uned Atal Trais Cymru |
| Chris Llywelyn | Prif Weithredwr CLlLC |
| Sarah Capstick | Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru, CLlLC |
| Naomi Alleyne | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, CLlLC |
| Paul Morris | Pennaeth Uned Gyswllt yr Heddlu |
| Gaynor Maddox | Rheolwr Rhanbarthol y Rhaglen Gydweithredol (cofnodion) |

<u>Ymddiheuriadau</u>

| | |
|---|---|
| Jeff Cuthbert | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent |
| Pam Kelly | Prif Gwnstabl Heddlu Gwent |

| | |
|---|---|
| Asim Hafeez | Dirprwy Gyfarwyddwr, Uned Gwell Rheoleiddio, Trawsbynciol, Datganoli a Chymru, |
| Ella Rabaiotti | Pennaeth Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru |
| Simon Hart, AS, | Ysgrifennydd Gwladol Cymru |
| Emma Wools | Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru |
| Tracey Cooper | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Reg Kilpatrick | Cyfarwyddwr Cyffredinol Ymateb COVID-19, Llywodraeth Cymru |
| Tracey Burke | Cyfarwyddwr Cyffredinol, Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru |
| Lee Jones | Prif Weithredwr Dros Dro Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru |

| **Camau gweithredu sy'n codi o'r cyfarfod** | |
|---|---|
| 1: Grŵp gorchwyl i'w sefydlu gan y Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys (2.3) | Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys |
| 2: Cam-drin domestig i gael ei ychwanegu at yr agenda yn y cyfarfod nesaf (4.1) | PiW |
| | |
| | |
| | |

## 1. Gair o Groeso ac Anerchiad gan y Cadeirydd

1.1 Croesawodd Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, yr holl aelodau i gyfarfod y Bwrdd gan gyflwyno David Davies AS, a oedd yn cynrychioli Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

1.2 Diolchodd David Davies i'r bwrdd am y cyfle i ddod i'r cyfarfod, gan ychwanegu bod ganddo ddiddordeb personol ac agos mewn plismona, ar ôl bod yn Gwnstabl Gwirfoddol am 9 mlynedd.

1.3 Rhoddodd Mr Davies ddiweddariad ar gyfarfod gyda'r Ysgrifennydd Cartref ddydd Llun (20.09.2021), gan nodi bod Plismona yng Nghymru yn un o flaenoriaethau'r Swyddfa Gartref, ynghyd â'r ymrwymiad i Raglen Recriwtio'r Heddlu, a bod trafodaethau pellach yn cael eu cynnal ar yr ardoll brentisiaethau. Roedd y cais MACA am Ambiwlans wedi'i lofnodi (22.09.2021) a thrafodwyd y pwysau eraill ar wasanaethau cyhoeddus datganoledig.

1.4 Diolchodd Prif Gwnstabl Carl Foulkes, yn gweithredu fel y Prif Gwnstabl arweiniol yn y cyfarfod, i Mr Davies ar ran heddluoedd Cymru am ei gymorth mewn trafodaethau.

1.5 Cadarnhaodd Dr Andrew Goodall ei fod wedi derbyn y cais MACA ffurfiol a bod angen iddo gael ei osod yng nghyd-destun camau eraill sy'n cael eu cymryd i leddfu'r pwysau ar wasanaethau. Ychwanegodd Dr Goodall fod y Lluoedd Arfog

wedi cael eu galw i helpu'r GIG/maes iechyd drwy gydol y pandemig yn ystod y don gyntaf a'r ail don, a bod cydberthnasau a dealltwriaeth dda rhwng y partneriaid. Er bod angen i'r gwasanaeth Ambiwlans gymryd camau eraill, mae'r broses gymeradwyo derfynol bellach yn mynd rhagddi.

1.6 Tynnodd Jane Hutt AS sylw at amseroldeb a phwysigrwydd y Bwrdd Partneriaeth Plismona, gan ddod â phartneriaethau allweddol at ei gilydd i ddelio â chamau gweithredu a phwysau ar wasanaethau.

1.7 Cododd y Comisiynydd Plismona a Throseddu Dafydd Llywelyn yr Ardoll Brentisiaethau y bu'r heddluoedd yn lobïo ar ei gyfer am gryn amser. Roedd Mr Llywelyn wedi cael cadarnhad gan y Swyddfa Gartref [yr wythnos hon] bod Pwyllgor Cabinet wedi cael ei drefnu ar gyfer mis Hydref, wedi'i gadeirio gan Michael Gove, i drafod y mater.

## 2. Pwysau Galwadau'r Gaeaf ar Wasanaethau Cyhoeddus Cymru

2.1 Agorodd y Prif Gwnstabl Carl Foulkes y drafodaeth, gan ychwanegu bod Dr Andrew Goodall wedi bod yn allweddol yn y trafodaethau hyd yma, gyda thrafodaethau yn bwydo i mewn i'r Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys (JESG) a gadeiriwyd gan y Prif Gwnstabl Jeremy Vaughan yr wythnos flaenorol. Ychwanegodd y Prif Gwnstabl Foulkes fod galw cynyddol ar blismona wrth i gymunedau ddod allan o'r cyfyngiadau symud. Cydnabyddir nad plismona yn unig sy'n wynebu'r galw sylweddol hwn, ond y system gyfan.

Ychwanegodd y Prif Gwnstabl Foulkes ei bod yn bwysig cydnabod yr heriau hyn sy'n wynebu gwasanaethau ledled Cymru a chydweithio. Gan ddefnyddio diffibrilwyr a hyfforddiant swyddogion fel enghraifft, ychwanegodd Mr Foulkes, er bod heddluoedd bob amser ar gael i helpu, bod yr heddlu yn wynebu lefelau craffu llymach o gymharu â gwasanaethau eraill. Er bod yr heddluoedd yn cytuno eu bod yn rhan o'r ateb, mae'n bwysig bod y gwasanaethau cywir a'r hyfforddiant a'r sgiliau cywir yn cael eu defnyddio a bod y gwasanaethau yn ateb y galwadau o ran y pwysau drwy weithio mewn partneriaeth.

2.2 Diolchodd y Prif Gwnstabl Vaughan i Dr Goodall a'i bartneriaid, gan ychwanegu bod pryderon ar draws y system a bod hwn yn gyfnod eithriadol. Y peth allweddol yw deall y system gyfan ac mae angen ymgynnull yr arweinwyr sy'n rheoli adnoddau a pholisïau. Mae llawer o bwysau ar wasanaethau mewn mannau eraill, mae morâl yn isel, ac mae angen i bawb weithio'n galed ar yr ymateb gan arweinwyr.

2.3 Cadarnhaodd Jane Hutt AS y pwysau ar yr holl wasanaethau cyhoeddus a'r gallu i baratoi ar gyfer pwysau'r gaeaf. Roedd y grŵp yn cytuno y dylid sefydlu grŵp gorchwyl bach gan y Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys.

2.4 Ychwanegodd Dr Andrew Goodall fod y Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys (JESG) wedi defnyddio cydberthnasau a chysylltiadau agored yng Nghymru ers cryn amser a bod angen trafod hyn ar sail Cymru gyfan mewn ffordd ragweledol er mwyn sicrhau dealltwriaeth lawn dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf. Ein dull

cydweithredol yw ein cryfder. Er ei bod yn bwysig cyfleu'r pryderon presennol i'r gwasanaethau brys, mae angen ystyried hefyd y galw ehangach ar wasanaethau a'r angen i ddatblygu cynlluniau cadarn ar gyfer ymdrin â'r meysydd hyn. Er bod fframwaith clir ar waith ar gyfer camau priodol, mae caniatadau wedi'u cynnwys yn y system i'r GIG ac Ymddiriedolaethau eu defnyddio sy'n cefnogi dewisiadau, penderfyniadau a chamau gweithredu lleol.

Gan gadarnhau niferoedd cleifion at ddibenion sy'n gysylltiedig â COVID-19, ychwanegodd Dr Goodall y bydd yr un staff yn ceisio dod at eu hunain unwaith eto a bod angen cydnabod llesiant staff ym mhob lleoliad, gan gynnwys lleoliadau meddygol a'r heddlu.
Mae gofal cartref, sicrhau bod pobl ar gael i gefnogi pobl yn y cartref, yr effeithiau, a'r galwadau ar iechyd meddwl hefyd yn bryderon. Er bod gennym gynllun y gaeaf ar waith bob amser sy'n cynnwys, er enghraifft, ymgyrchoedd pigiadau atgyfnerthu yn yr hydref, mae'r cais MACA yn enghraifft wirioneddol o'r ffordd rydym yn cefnogi hyn. Fodd bynnag, cam gweithredu i fwrdd iechyd yw hwn.

2.5 Gofynnodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Alun Michael sut rydym yn dylanwadu ar ymddygiad cyhoeddus. Nid dim ond o ran cyfathrebu a negeseuon, ond sut y mae pobl yn ymddwyn mewn ffyrdd penodol. Gan ychwanegu bod Cymru mewn sefyllfa well o ran y ffordd yr ymdriniwyd â'r pandemig, nododd ei bod yn ymwneud â phobl yn deall natur y galw. Ychwanegodd Mr Michael fod problemau â 101 gan fod llawer o bobl yn cysylltu am faterion nad ydynt yn ymwneud â phlismona, ond bod y galw hwn yn cael ei roi ar blismona.

Ychwanegodd Mr Michael y cydweithiodd y partneriaethau yng Nghymru yn rhagorol a bod hyn wedi gwneud gwahaniaeth mawr. Mae hyn yn cynnwys ailagor llysoedd a'r ffaith bod gwaith diogelwch cymunedol yn parhau i ddatblygu, ond yn y bôn mae angen i ni annog pobl i ymddwyn mewn ffyrdd mwy cadarnhaol.

2.6 Gan nodi'r diweddariad ar y pwysau ar ofal cymdeithasol, rhoddodd y Gweinidog Jane Hutt ddiweddariad bod y Dirprwy Weinidog wedi cyhoeddi cronfa adfer gofal cymdeithasol gwerth £40M. Mae'r gronfa yn bwysig i lywodraeth leol ac yn cefnogi dull system gyfan.

2.7 Cytunodd Dr Andrew Goodall fod angen edrych ar ymddygiad cyhoeddus a bod barn a goddefiant y cyhoedd yn wahanol iawn bellach. Mae'r ffordd y mae'r heddlu wedi cyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau a'r ffordd y bu'n rhaid i ni gydymffurfio wedi helpu'r cyhoedd i ddeall hyn ac mae llawer o wersi i'w dysgu o hyn. Mae'r cymorth a'r ddealltwriaeth rydym wedi'u profi yn y camau cynnar yn wahanol nawr ac mae hyn yn cynnwys y ffordd y mae'r cyhoedd yn defnyddio ein gwasanaethau. Mae'r ymgyrch Helpwch Ni I'ch Helpu Chi yn canolbwyntio ar gyfathrebu y gaeaf hwn. Fodd bynnag, nid yw'r cyhoedd yn deall ble ac at bwy y gallent droi am gymorth. Ni ddylem ddiystyru'r effaith y mae COVID-19 yn dal i'w chael ar bob un ohonom.

Mae pwysau dwys ar un rhan o'r gwasanaeth yn rhoi pwysau ar rannau eraill o'r gwasanaeth, nid dim ond ar y trefniadau cyllido ond ar y gweithlu hefyd. Roedd cyfarfodydd yn cael eu cynnal bob wythnos â'r Gweinidog Iechyd dros fisoedd yr haf gyda'r partneriaid i gyd yn cydweithio, gan nodi'r materion a rhannu arferion gorau.

2.8 Ychwanegodd y Dirprwy Brif Gwnstabl Amanda Blakeman fod y pwysau yn fwy critigol i'r heddlu dros gyfnod y Nadolig, gan dynnu sylw at yr economi liw nos, ac ychwanegu bod gwasanaeth yr heddlu yn ystyried y problemau nawr ac yn gweithio gyda deiliaid trwyddedau. Mae nifer cynyddol o gyflwyniadau yn yr adran damweiniau ac achosion brys gyda phryderon bod yn rhaid i swyddogion yr heddlu fynd yno pan nad oes ganddynt y sgiliau i wneud hyn.

2.9 Ychwanegodd y Prif Gwnstabl Vaughan ein bod mewn sefyllfa argyfyngus barhaus, oherwydd nifer y galwadau 999 a bod angen ymdeimlad o atebolrwydd a gafael.

## 3. 'Beating Crime Plan' – Ystyriaethau a Goblygiadau i Gymru

3.1 Rhoddodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dafydd Llywelyn ddiweddariad yn nodi bod Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu wedi cael cyfarfod yn 10 Downing Street, ac mai'r neges allweddol oedd y ffordd y byddwn yn myfyrio ac yn ystyried y cynllun ac yn dehongli'r allbwn. Mae hyn yn cynnwys yr hyn a ddaw'n flaenoriaethau allweddol a'r hyn y mae'n ei olygu ar gyfer Cymru a Llywodraeth Cymru.

Ychwanegodd Mr Llywelyn fod y ffocws ar y cynllun yn cynnwys ymyrraeth gynnar ac atal a'r camau nesaf yw gweithio allan sut y mae'r cynllun yn cydblethu â chynlluniau heddlu a throseddu lleol y bydd pob un o Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn eu llunio. Yn dilyn hyn, nodwyd y gofynion strategol ehangach ar lefel genedlaethol a chyflawniad lleol.

Ychwanegodd Mr Llywelyn fod rhannau o'r ymgynghoriad wedi cael eu cwestiynu a'u bwydo yn ôl i'r Swyddfa Gartref a'r Prif Weinidog, yn enwedig y ffordd y caiff rhai o'r mesurau perfformiad a fydd yn cael eu datblygu fel rhan o'r cynllun eu cyfleu. Mae'r modd y mae'r cynllun yn cysylltu â'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, y goblygiadau cost a'r cynllunio ariannol yn hanfodol. Y sefyllfa unigryw yng Nghymru yw bod mwy na 50% o blismona yng Nghymru yn cael ei dalu drwy drethiant ac mae angen deall goblygiadau ariannol y cynllun yn llawn.

3.2 Ychwanegodd y Prif Gwnstabl Carl Foulkes fod y ffocws clir ar atal i'w groesawu'n fawr. Tynnwyd sylw at Raglen Ysgolion Cymru a gwaith Cyfiawnder Troseddol a'r cymorth a gafwyd gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, cododd Mr Foulkes bryderon am y lefel gynyddol o flaenoriaethau, beth yw'r blaenoriaethau allweddol a'r disgwyliadau ar blismona.

O ran y tablau cynghrair a'r perfformiad, mae llawer o waith i'w wneud gyda Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu (NPCC) a'r metrigau perfformiad a phwysigrwydd eu defnyddio yn y ffordd gywir. Mae un system yn

anodd, ac er ein bod am wella perfformiad, nid ydym am gymryd cam yn ôl. Mae'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant a'r cyllid yn bwysig ac mae hyn oll yn cysylltu â'r cynlluniau lleol ac mae angen i fod yn glir gyda'n staff ein bod yn dda wrth ein gwaith ac am barhau i fod felly.

3.3 Ychwanegodd Ms Amy Rees fod llawer o gynlluniau yng Nghymru yn cynnwys tagio electronig gyda chynllun peilot ym mis Tachwedd yn monitro rhyddhau ar drwydded gyda'r rhaglen Rheoli Troseddwyr Integredig (IOM) a gwaith di-dâl. Er y nodir bod ôl-groniad o 370,000 o oriau o waith dedfryd gymunedol ddi-dâl yng Nghymru ar hyn o bryd, mae Cymru yn flaengar iawn o ran yr agenda hon.

3.4 Cadarnhaodd Mr Chris Jennings gynnig am arian ar gyfer camddefnyddio sylweddau a fydd yn cyfrannu at yr agenda atal ond gofynnodd a oedd mwy y gellid ei wneud gyda chydweithwyr plismona o safbwynt prawf er mwyn cyfleu'r neges atal yn fwy cydlynol.

3.5 Nododd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Alun Michael fod rôl y Cydgysylltydd Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru yn cael ei gyd-ariannu, sydd wedi cyflymu llawer o waith atal. Mae ychwanegu rôl y dadansoddwr wedi datblygu dangosfwrdd ar gyfer adrodd ar alw yn lleol, ac mae hyn yn gwneud gwahaniaeth mawr i'n dealltwriaeth.

3.6 Ychwanegodd y Prif Gwnstabl Jeremy Vaughan fod rhaglenni llwyddiannus fel Camau Cynnar Gyda'n Gilydd (EAT), grwpiau gorchwyl a gorffen ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a gwaith arall gyda Chyfiawnder Troseddol wedi cael effaith gadarnhaol ond nododd bwysigrwydd cadw'r momentwm. Er bod partneriaid yn creu cynlluniau amlwg, mae'r gallu i'w cynnal yn allweddol.

## 4. Unrhyw Fater Arall – Cyfarfod Plismona yng Nghymru

4.1 Cafwyd diweddariad cryno gan Dafydd Llywelyn.

a. Parhau'r cyflwyniad ar gamddefnyddio sylweddau cyn COVID-19. Roedd nifer o bryderon a materion nad ydynt wedi diflannu, a chaiff y rhain eu trafod yng nghyfarfod nesaf y bwrdd. Nid yw camddefnyddio sylweddau yn fater i'r heddlu yn unig ond mae'n cael effeithiau ehangach ar gymunedau a phartneriaid ac roedd angen rhoi ystyriaeth bellach i agweddau'r cyhoedd at gamddefnyddio sylweddau, a'r angen i ymgysylltu â'r cyhoedd yn llawn.
b. Mae'r gwaith ar gasineb at fenywod a thrais yn erbyn menywod a merched yn parhau. Mae ffocws o'r newydd ar y gwaith hwn drwy Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Llywodraeth Cymru, a'r dull gweithredu Glasbrint sy'n cael ei gefnogi gan Plismona yng Nghymru.

4.2 Gofynnodd y Gweinidog Jane Hutt i'r meysydd hyn gael eu cynnwys yn y cyfarfod nesaf a dywedodd fod cyfarfodydd wedi'u cynnal ar aflonyddu rhywiol mewn lleoliadau addysg ac ar wefan 'Everyone’s Invited'. Ychwanegodd Ms Hutt fod llawer o waith i'w ddatblygu yn sgil hyn a bod Llywodraeth Cymru yn ymestyn

Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol dros y 5 mlynedd nesaf. Bydd pwyslais nid yn unig ar gam-drin domestig yn y cartref, ond hefyd yn y gweithle ac ar ein strydoedd.

## 5. Diweddariadau gan Bartneriaid yn ôl Eithriad

5.1 Cafwyd diweddariad gan Jane Hutt am y ffoaduriaid o Afghanistan a groesawyd yng Nghymru, gan nodi bod 50 o deuluoedd, sef 230 o unigolion, wedi cael llety yma hyd yn hyn gyda phob awdurdod lleol yn chwarae ei ran ac yn cynnig cymorth.

5.2 Cafwyd diweddariad gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Alun Michael fod yr adroddiadau a dderbyniodd y bwrdd yn llawn gwybodaeth sy'n tynnu sylw at Fwrdd Cymunedau Mwy Diogel Cymru. Er bod yr heddlu yn arwain ar ddiogelwch cymunedol, mae angen i'r rhwydwaith ddatblygu ymhellach ac i'r gwaith partneriaeth ehangu.

5.3 Soniodd Ms Joanne Hopkins am bwynt a nodwyd gan y tîm adsefydlu ffoaduriaid o Afghanistan yn ymwneud â thrais yn erbyn menywod a merched, gan ddweud bod y wybodaeth wedi codi ymwybyddiaeth menywod yn Afghanistan, lle mae mwy na 70% o'r farn bod hyn yn 'normal'. Dywedodd Ms Hopkins hefyd fod angen cael dealltwriaeth well o brofiadau menywod o Afghanistan, ac effaith unrhyw drawma y maent yn ei brofi, ac wrth wneud hynny, gellir cael cipolwg go iawn ar drais ar sail rhywedd.

Yn un o gyfarfodydd y Fforwm Cydraddoldeb Hiliol Women Connect First, bydd sefydliadau eraill yn cymryd rhan a bydd ffocws ar sail rhywedd ar y modd y gallwn integreiddio ac ymgysylltu.

5.4 Diolchodd Ms Naomi Alleyne i Heddlu De Cymru a Kevin Jones am y gwaith a wnaethant wrth gefnogi'r ffoaduriaid o Afghanistan ac wrth dynnu sylw at broblemau ceiswyr lloches ar y ffin ar gyfer y dyfodol. Mae Cydlyniant Cymunedol a'r penderfyniadau ynghylch ble i leoli teuluoedd yn seiliedig ar ddull 'tîm Cymru' ac mae ymrwymiadau parhaus sy'n elwa ar y ffaith bod pawb yn parhau i gydweithio.

5.5 Cafwyd diweddariad gan Mr Chris Jennings fod newidiadau yn y tîm o Weinidogion ac yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder, gyda phortffolios yr is-weinidogion yn dal i gael eu trefnu.

5.6 Tynnodd Ms Amy Rees sylw at y pwysau ar y gwasanaeth ambiwlans gan holi ynghylch pwysau eraill ac a oedd unrhyw beth arall y gellid ei wneud mewn perthynas â hyn.

5.7 Ymatebodd y Prif Gwnstabl Foulkes fod gwaith ar y galwadau ledled Cymru yn cael ei ddatblygu ac y byddai hyn yn bwydo i mewn i'r Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys.

5.8 Cafwyd diweddariad gan Mr Chris Batchelor yn nodi nad yw'r Gweinidog Atkins yn y Swyddfa Gartref mwyach.

**6. Unrhyw Fater Arall**

6.1 Tynnodd Mr Gary Haggarty sylw at fatrics blaenoriaethu camau gweithredu a oedd yn cael ei ddatblygu er mwyn rhoi egwyddorion rheoli rhaglenni cryfach a mwy cadarn ar waith o gwmpas gwaith y Bwrdd. Gofynnodd a oedd unrhyw feysydd i'w blaenoriaethu a sut y dylai hyn edrych wrth symud ymlaen.

6.2 Ymatebodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Alun Michael ei bod yn bwysig cydnabod nad yw'r grŵp yn bodoli o safbwynt cyfansoddiadol ond fod ei werth yn hanu o roi lle i blismona annatganoledig a phartneriaid ymgysylltu a bod Uned Gyswllt yr Heddlu yn allweddol wrth gefnogi'r cyfarfod.

**Dyddiad ac Amser y cyfarfod nesaf**
Dydd Iau 2 Rhagfyr - 13:30 - 15:30